Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil Plant Tir na n-Og
# Prifysgol Bangor
# Safle'r Normal
# Ffordd Caergybi
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 2PZ

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 03/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Tir na n-Og yn lleoliad sy’n cael ei rhedeg gan Brifysgol Bangor.  Mae wedi’i lleoli ar gyrrau Bangor, yn awdurdod lleol Gwynedd.  Mae’n cyfarfod yn adeilad newydd ar safle’r Normal, Prifysgol Bangor.  Mae’r lleoliad ar agor am bum dydd yr wythnos.  Mae gan y lleoliad pum aelod o staff.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant.  Mae’n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.  Ar adeg yr arolygiad, roedd tri phlentyn yn dair blwydd oed ac wedi’u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un plentyn o darddiad Gwyn Prydeinig.  Nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.  Nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd er Gorffennaf 2002.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Hydref 2014.  Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf yn Chwefror 2010.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynllunio cydwybodol o brofiadau dysgu;
- y cwricwlwm ysgogol;
- yr addysgu effeithiol;
- yr ethos gofalus a chefnogol;
- yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n dda; a'r
- berthynas gadarnhaol rhwng oedolion a phlant.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y cyfeiriad clir i waith y lleoliad gan y rheolwr, yr arweinydd a'r staff;
- y systemau hunanarfarnu effeithiol sy'n cyfatebu'n dda i'r targedau clir yn y cynllun datblygu;
- agweddau cadarnhaol y staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant; a'r
- pwyllgorau rheoli cefnogol a heriol.

## Argymhellion

A1 Ymyrryd llai wrth addysgu, er mwyn i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol

A2 Sicrhau fod y ddarpariaeth o'r Gymraeg yn gyson ar draws y lleoliad

A3 Defnyddio'r ardal allanol i fwyhau gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o dyfiant planhigion a'r amgylchedd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn cael ei gwblhau yn gydwybodol ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar y meysydd dysgu o'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu a phrofiadau'r plant trwy themâu tymhorol. Mae cyfleoedd ysgogol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r holl staff yn trafod y cwricwlwm a gweithgareddau'r themâu ac mae ganddynt fewnbwn i beth sy'n cael ei ddysgu. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n drwyadl ac mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Mae'r amcanion dysgu yn cael eu cyflwyno'n synhwyrol ar ddechrau'r tasgau i herio plant unigol. Darperir gweithgareddau diddorol i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a datblygiad creadigol. Mae'r defnydd cyson o gyfarpar allanol yn cefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol y plant. Mae'r ardal allanol yn newydd ac nid yw'r cyfleoedd i blannu a thyfu wedi eu datblygu hyd yn hyn.

Mae'r mwyafrif o oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg; fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ymysg y staff. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn sefydlog ac mae'r cyfrifiadur yn cael ei ddefnyddio'n dda. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl yn y gegin, arbrofi gyda reis ac ewyn eillio a gwneud gwiail pysgota o ffyn maent yn darganfod tu allan.

Rhoddir pwyslais da ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd diddorol i'r plant i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, er enghraifft, drwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd, Diwali a diwrnodau arbennig fel diwrnod Awstralia. Mae gweithgareddau

tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau gweithgareddau ffocws i sicrhau fod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd. Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol ac yn rhannu plant mewn i grwpiau'n dda i dargedu eu anghenion dysgu'n bwrpasol.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn modelu iaith yn dda, yn enwedig yn y Saesneg, i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt wrando ar stori a thrafod cynnwys llyfrau.

Mae gweithdrefnau asesu cyson yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n drwyadl. Mae'r staff yn asesu'r plant yn rheolaidd ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i olrhain eu cynnydd. Maent yn cwblhau llyfrynnau llawn gwybodaeth sy'n cofnodi'n effeithlon yr hyn mae pob plentyn wedi ei ddysgu yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu eu hysgogi i ddyfalbarhau wrth ddysgu medrau newydd.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod iechyd a lles y plant yn cael eu cefnogi'n dda. Mae ymweliadau o gwmpas yr ardal leol ac ymwelwyr i'r lleoliad fel syddogion tân, yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal leol yn dda trwy ymweliadau cyson â'r Afon Menai, y llyfrgell a bwyty gerllaw. Mae'r defnydd o'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod eu teimladau gyda staff ac i ddweud diolch i'w gilydd. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn dda wrth iddynt rhannu teganau ac yfed diod gyda'i gilydd. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant i ail-gylchu gwahanol ddefnyddiau ac i ddatblygu dealltwriaeth y plant am gynaliadwyedd yn dda. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd heriol ar gael i'r plant i dyfu planhigion. O ganlyniad, nid yw'r plant yn dysgu'n effeithiol am sut mae planhigion yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Y rheolwr yw'r swyddog diogelu. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau yn cael eu cau'n electronig a dim ond aelodau staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau fod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi. Mae'r staff yn trafod rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm cytbwys.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan staff y lleoliad gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae'r adeilad yn newydd iawn ac wedi ei gynllunio'n effeithiol i adael plant symud yn rhydd o'r tu fewn i'r tu allan. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau yn yr ardal allanol yn y broses o gael eu datblygu ac mae'r cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys ardaloedd i dyfu planhigion. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r rheolwr a'r arweinydd yn cynnwys y staff yn y cynllunio'r profiadau dysgu, sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'r arbenigedd. Mae'r rheolwr a'r arweinydd yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir ar sut i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae ethos positif ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r holl blant. Mae'r staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar anghenion pob plentyn.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sydd yn effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr, sy'n cynnwys pwyllgor sicrhau ansawdd,

yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac maent yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r grŵp rheoli, sy'n gweithredu dan arweiniad Prifysgol Bangor, yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'r pwyllgor yn monitro a herio'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

Mae cynlluniau strategol cywir yn eu lle gan yr arweinwyr. Mae'r systemau hunan arfarnu yn arwain at gynlluniau hir dymor effeithiol, sy'n nodi llinynnau amser addas a phriodol. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r rheolwr, yr arweinydd a'r staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn llwyddiannus a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r lleoliad yn hunanarfarnu'n gywir a thrwyadl. Mae'n sicrhau cyswllt effeithiol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu.

Mae tystiolaeth fanwl o arfarniadau buddiol wrth bawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r pwyllgor sicrhau ansawdd yn monitro ac arfarnu arferion y lleoliad yn ddiwyd. Mae'r targedau priodol yn y cynllun datblygu'n cynnwys gwella datblygiad y plant yn y Gymraeg, darparu cysgodfan i'r ardal allanol, ymestyn hyfforddiant Cyfnod Sylfaen i staff a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ail-gylchu.

Mae'r staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r systemau hunan arfarnu wedi cael effaith gadarnhaol ar y prosesau sicrhau ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rhieni a'r gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi'r safonau gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae'r rhieni oll yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cysylltiadau gyda'r brifysgol wedi'u sefydlu'n dda iawn ac mae'r lleoliad yn ymwneud â phrosiectau ymchwil, er enghraifft bwyta'n iach. Mae'r cyd-weithrediad rhwng y lleoliad a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru a'r awdurdod lleol yn dda; fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau gyda'r ysgolion lleol yn sefydlog oherwydd y dalgylch enfawr i blant sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o'r gefnogaeth a ddarperir gan y brifysgol, yr awdurdod lleol a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Mae'r cyngor, awgrymiadau a'r cyd-weithrediad wedi bod yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen ac wedi cyfrannu at y ddarpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth pwrpasol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinyddiaeth yn strategol ac yn cynllunio i’r dyfodol yn dda. Mae’r adnoddau yn cael eu rheoli’n effeithiol i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae’r rheolwr, arweinydd a’r pwyllgorau rheoli yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy’n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol. Mae staff y lleoliad yn defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant.

Mae’r staff yn cydweithio’n effeithiol gyda’i gilydd i wella cyflawniadau’r plant. Gwneir defnydd synhwyrol o’r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hylaw i’r plant. Mae’r staff yn gwneud defnydd da o’r adeilad i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol.

Mae’r ddarpariaeth a brwdfrydedd yr arweinyddiaeth yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |